Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd 2022-23

Medi 2023

## 1. Cyflwyniad

**1.** Dyma ail adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar weithrediad mesurau interim diogelu'r amgylchedd ('y mesurau interim'). Mae'n adeiladu ar y casgliadau a'r argymhellion a gafodd eu cynnwys yn ein hadroddiad cyntaf (a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022). Mae hefyd yn awgrymu'r camau nesaf o ran sefydlu trefniadau llywodraethu parhaol yng Nghymru.

**2.** Cafodd y mesurau interim, dan arweiniad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ('yr IEPAW'), eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru i lenwi'r bwlch rhwng diwedd y cyfnod pontio yn dilyn Brexit a'r cam o sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd ar gyfer Cymru.

**3.** Dechreuodd Dr Nerys Llewelyn Jones yn ei rôl fel yr IEPAW ym mis Mawrth 2021, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd. Ers hynny, mae hi wedi cael ei hailbenodi am flwyddyn arall. Disgwylir i'w phenodiad ddod i ben ym mis Chwefror 2024.

### Ein dull ni

**4.** Ar 21 Mehefin 2023, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Nerys Llewelyn Jones. Cafodd y sesiwn ei llywio gan Adroddiad Blynyddol Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 ('Adroddiad Blynyddol 2022-23').

**5.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan y Fonesig Glenys Stacey, Cadeirydd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; Natalie Prosser, Prif Swyddog Gweithredol Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd; a Mark Roberts, Prif Weithredwr Environmental Standards Scotland. Diben y sesiwn oedd casglu gwybodaeth am y broses o sefydlu a gweithredu cyrff llywodraethu amgylcheddol parhaol mewn mannau eraill yn y DU, a hynny er mwyn dysgu gwersi cyn sefydlu corff newydd i Gymru.

**6.** Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, ysgrifennodd y Pwyllgor at Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland yn gofyn am ragor o wybodaeth. Mae copïau o'r ohebiaeth a gyfnewidiwyd ar gael ar wefan Senedd Cymru.

**7.** Ar 8 Mehefin 2023, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn untro gyda rhanddeiliaid ar fioamrywiaeth a'r argyfwng natur. Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod y sesiwn honno hefyd wedi llywio'r adroddiad hwn.

**8.** Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad hwn.

# 2. Ail flwyddyn yr IEPAW

## Trosolwg

**9.** Yn Adroddiad Blynyddol 2022-23, mae Dr Llewelyn Jones yn crynhoi gwaith yr IEPAW yn ystod ei hail flwyddyn, gan ddatgan, “mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio’n galed i asesu effeithiolrwydd deddfwriaeth diogelu’r amgylchedd yma yng Nghymru a chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a chryfhau’r ddeddfwriaeth hon". Nododd hefyd fod ei thîm a hithau “wedi bod yn gweithio’n galed i gyflwyno adroddiadau mewn sawl maes allweddol a chymryd camau i sicrhau ein bod ni’n darparu gwasanaeth mwy tryloyw i’r cyhoedd a’n rhanddeiliaid”.

**10.** Dywedodd Dr Llewelyn Jones wrth y Pwyllgor fod y mesurau interim yn “gweithio’n dda”, gan gydnabod bod cylch gorchwyl yr IEPAW yn wahanol i gylch gorchwyl cyrff llywodraethu parhaol mewn rhannau eraill o’r DU. Yn ogystal, dywedodd: “…o ran y remit sydd gyda fi ar hyn o bryd, dwi'n credu y dylem ni fod yn blês iawn â beth rŷn ni wedi llwyddo i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r ddwy flynedd gychwynnol yma”.

## Gweithio i wella prosesau

**11.** Yn ystod cyfnod adrodd 2022-23, cyflwynodd swyddfa’r IEPAW ffurflen gyflwyno er mwyn ceisio sicrhau ei bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arni o'r cychwyn cyntaf. Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2022-23, mae’r ffurflen wedi bod yn effeithiol, gan leihau’r amser a dreulir a’r adnoddau a ddefnyddir wrth fynd i’r afael â phryderon. Yn ogystal, “bu gostyngiad amlwg yn nifer y cyflwyniadau sydd y tu allan i gylch gwaith yr IEPAW.”

**12.** Mae’r IEPAW wedi cynhyrchu canllaw cyfeirio ynghylch y rheoleiddwyr amrywiol sy’n gweithredu ym maes yr amgylchedd (ym mis Mai 2023), a hynny er mwyn sicrhau bod pryderon yn cael eu cyfeirio at y cyrff mwyaf priodol. Mae’r IEPAW hefyd wedi datblygu egwyddorion blaenoriaethu (ym mis Ebrill 2023) ar gyfer penderfynu pa gyflwyniadau y gellir cyfiawnhau adroddiadau i Weinidogion Cymru yn eu cylch.

## Ymateb i gyflwyniadau

**13.** Mae Adroddiad Blynyddol 2022-23 yn egluro bod yr IEPAW wedi cael chwe chyflwyniad yn ystod y cyfnod adrodd, ac wedi ymateb i bob un ohonynt o fewn 20 diwrnod i’w derbyn. Roedd y cyflwyniadau dan sylw yn ymwneud â’r materion

a ganlyn: diogelu a rheoli safleoedd gwarchodedig; ansawdd dŵr; cynllunio (cyflwyniad yr ystyrir ei fod y tu allan i gwmpas proses yr IEPAW); halogiad gan biffenylau polyclorinedig (PCBs); a choedwigaeth.

**14.** Roedd nifer y cyflwyniadau a ddaeth i law yn 2022-23 gryn dipyn yn is na'r 21 o gyflwyniadau a gafwyd yn 2021-22. Pan ofynnwyd iddi am hyn, esboniodd Dr Llewelyn Jones fod nifer y cyflwyniadau yn 2021-22 yn llawer uwch na'r nifer a ragwelwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan gyfeirio at y cyfnod pan sefydlwyd gwasanaeth yr IEPAW, dywedodd: "…roedden nhw'n rhagweld y byddai amboutu pump neu chwech y flwyddyn…dwi'n credu ei fod e nawr, efallai, wedi lefelu'n ôl i beth oedd y disgwyliadau o beth byddai fe".

## Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella tryloywder

**15.** Gwnaeth adroddiad cyntaf y Pwyllgor argymell bod yr IEPAW yn chwilio am ffyrdd o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch y gwasanaeth hwn, a gwella tryloywder mewn perthynas â gwaith yr IEPAW. Mae Adroddiad Blynyddol 2022-23 yn egluro bod yr IEPAW wedi cymryd camau er mwyn rhoi argymhellion y Pwyllgor ar waith, gan gynnwys:

- cyflwyno cyfres o gyfarfodydd chwarterol i randdeiliaid;
- cyhoeddi manylion rhaglen waith dreigl yr IEPAW ar dudalennau gwe'r corff;
- estyn allan at gyrff cynghori cyhoeddus i sicrhau eu bod yn ymwybodol o wasanaeth yr IEPAW; ac
- adnewyddu tudalennau gwe'r IEPAW fel eu bod yn fwy hwylus i ddefnyddwyr ac er mwyn tynnu sylw at natur annibynnol yr IEPAW.

**16.** Dywedodd Dr Llewelyn Jones wrth y Pwyllgor: "…beth dwi eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n blaenoriaethu yw hala mwy o arian ar gyhoeddusrwydd [rôl yr IEPAW], ac hefyd ar ymwneud gyda'r rhanddeiliaid…Mae gwneud y gwaith o ddydd i ddydd wedi bod yn dasg enfawr, heb sôn am y pethau y byddwn i wedi licio eu gwneud petai ni'n gallu'n cael yr amser a'r adnoddau i wneud e."

## Cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru

**17.** Mae'r IEPAW yn gyfrifol am ystyried materion perthnasol sy'n destun cyflwyniadau mewn perthynas â gweithrediad cyfraith amgylcheddol, ac am

gynhyrchu adroddiadau sy’n darparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar y materion hynny yn ôl yr angen.

**18.** Mynegodd adroddiad cyntaf y Pwyllgor bryderon ynghylch y ffaith bod cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau o fewn swyddfa’r IEPAW yn rhwystr i’r broses o gyflwyno adroddiadau mewn modd amserol. Roedd hyn yn sgil y ffaith nad oedd yr IEPAW, yn ystod cyfnod adrodd 2021-22, wedi cyflwyno unrhyw adroddiadau i Lywodraeth Cymru, er bod disgwyl i’r IEPAW gyflwyno adroddiad ar goedwigaeth yn ystod tymor yr haf 2022.

**19.** Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2022-23, cyflwynodd IEPAW un adroddiad i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd yr adroddiad hwnnw’n ymwneud ag effaith bosibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Roedd yr adroddiad ar goedwigaeth yn destun oedi pellach, ac roedd yr adroddiadau ar ddiogelu gwrychoedd, safleoedd gwarchodedig a sancsiynau sifil yn parhau i fod “ar y gweill”.

**20.** Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Llewelyn Jones egluro pam nad oedd yr adroddiad ar goedwigaeth wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Tynnodd Dr Llewelyn Jones sylw at y ffaith mai’r adroddiad hwn oedd ei darn cyntaf o waith, ac wrth edrych yn ôl, nododd y byddai wedi mabwysiadu dull gwahanol o gasglu tystiolaeth. Gan gyfeirio at gapasiti, dywedodd: “…mae wedi bod yn anodd hala'r amser yn drafftio'r adroddiad yna yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom ni.”

**21.** Eglurodd Dr Llewelyn Jones: “Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedyn, ers ymrwymo i wneud [y gwaith ar goedwigaeth], wedi cael sawl cyflwyniad ychwanegol ar faterion tebyg yn y maes hwnnw. So, bob tro rŷn ni'n dod yn agos at feddwl, 'O, rŷn ni'n gallu cyflwyno hwnna', mae rhywbeth arall wedi dod sy'n golygu na, rŷn ni'n gorfod cymryd hwn i ystyriaeth, hefyd.” Dywedodd ei bod yn awyddus i’r adroddiad fod yn gynhwysfawr ac yn ddefnyddiol, gan nodi ei bod yn gobeithio y byddai ar gael “yn glou iawn”.

**22.** Eglurodd Dr Llewelyn Jones fod gwaith ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir wedi’i gynnwys yn ei rhaglen waith “ar fyr rybudd”, a’i fod wedi cael ei flaenoriaethu, o ystyried natur amser-gritigol y gwaith. Cyhoeddodd y Gweinidog ymateb i’r adroddiad ym mis Mai 2023, dri mis ar ôl i’r adroddiad gael ei gyflwyno, yn hytrach nag o fewn y cyfnod o chwe wythnos y cytunwyd arno.

**23.** Dywedodd Dr Llewelyn Jones ei bod wedi ymrwymo i sicrhau y bydd yr holl adroddiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno cyn i'w phenodiad ddod i ben ym mis Chwefror 2024.

## Monitro a gwerthuso

**24.** Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y camau yr oedd yr IEPAW wedi'u cymryd yn ystod blwyddyn adrodd 2022-23 i fonitro effaith gwaith y corff ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ac ar ganlyniadau amgylcheddol. Dywedodd Dr Llewelyn Jones wrth y Pwyllgor:

> *"Does yna ddim proses ffurfiol mewn lle…Mae hwnna'n rhywbeth rŷn ni'n edrych arno yn fanwl ar hyn o bryd. Yn amlwg, rŷn ni wedi cael un adroddiad wedi cael ei gyhoeddi, a dwi'n edrych ar sut gallwn ni fonitro yr ymateb, efallai, i'r argymhellion sydd wedi cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru ar hwnna, a dwi'n siarad gyda rhanddeiliaid eraill am hwnna ar hyn o bryd."*

**25.** Ychwanegodd: "…mae fe'n rhywbeth anodd iawn i fesur, o ran beth yw'r impact sydd wedi bod."

## Cynyddu capasiti ac adnoddau

**26.** Roedd adroddiad cyntaf y Pwyllgor yn holi a oedd gan yr IEPAW ddigon o adnoddau i gyflawni rôl a chyfrifoldebau'r corff yn effeithiol. Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad brys o'r adnoddau sydd ar gael i'r IEPAW. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad, gan ymrwymo i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canfyddiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Nid yw'r Pwyllgor wedi cael y wybodaeth hon eto.

**27.** Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2022-23, mae'r adolygiad wedi'i gwblhau ac wedi nodi "materion adnoddau clir". Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi ymrwymo i gymryd y camau a ganlyn:

- penodi Dirprwy IEPAW;
- recriwtio staff dynodedig i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r IEPAW; a

- darparu rhagor o arian i'r IEPAW er mwyn sicrhau cymorth ac arbenigedd drafftio ychwanegol, gan gynnwys defnyddio contract yn ôl y gofyn.

**28.** Croesawodd Dr Llewelyn Jones yr ymrwymiadau hyn. Fodd bynnag, eglurodd nad oedd Dirprwy IEPAW wedi cael ei benodi eto, a mynegodd bryderon ynghylch hyd y broses benodi. Ychwanegodd: "…yn amlwg gallwn i wneud tro â rhywun nawr".

**29.** Gan wneud sylwadau pellach ar adnoddau, dywedodd Dr Llewelyn Jones: "Mae gyda ni, rhwng nawr a phan mae'n rôl i yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror nesaf, bedwar adroddiad i'w cyhoeddi. Felly, mae honna'n dasg enfawr. Dwi'n gobeithio bod y cynllun sydd gyda ni gyda'r adnoddau hyn yn mynd i fod yn ddigon i hwnna, ond, yn amlwg, mae hwnna'n waith sylweddol i'w wneud."

## Ein barn ni

Mae gwasanaeth yr IEPAW bellach wedi bod yn ei le ers dros ddwy flynedd. Yn ystod ei ail flwyddyn, mae'r corff wedi parhau â'r gwaith a ddechreuwyd ym mlwyddyn un; mae wedi ymateb i chwe chyflwyniad newydd; mae wedi cwblhau gwaith ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir; ac mae wedi ceisio gwella ei brosesau a'i arferion a chodi ei broffil cyhoeddus.

Er gwaethaf yr uchod, byddem wedi disgwyl gweld mwy o ran allbynnau yn deillio o waith yr IEPAW erbyn hyn. Un adroddiad yn unig sydd wedi cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Rydym yn cydnabod bod cyfyngiadau o ran capasiti ac adnoddau wedi bod yn ffactor allweddol sydd wedi cyfrannu at yr oedi a welwyd o ran cyflwyno adroddiadau. Felly, mae'n anffodus bod yr adolygiad adnoddau a gafodd ei argymell gan y Pwyllgor hwn wedi cymryd cyhyd i'w gwblhau. Rydym yn disgwyl y bydd cymorth ac arbenigedd ychwanegol yn cael ei ddarparu o ran drafftio, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o adroddiadau yn ystod y flwyddyn i ddod.

Er gwaethaf y ffaith bod y Gweinidog wedi ymrwymo i gyflwyno adroddiad inni ar ganfyddiadau'r adolygiad adnoddau, nid ydym wedi cael y wybodaeth honno eto. Rydym yn disgwyl i'r Gweinidog fynd i'r afael â'r mater hwn. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu i'r IEPAW mewn modd prydlon, gan gynnwys ar ffurf Dirprwy IEPAW.

Rydym yn pryderu, ddwy flynedd ar ôl i'r broses o weithredu’r mesurau interim, nad oes gan yr IEPAW na Llywodraeth Cymru drefniadau ar waith i fonitro effaith gwaith yr IEPAW.

Byddem yn disgwyl i’r IEPAW sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer olrhain y broses o weithredu’r argymhellion a wnaed i Lywodraeth Cymru, gwneud gwaith dilynol ar gynnydd lle y bo’n briodol, a monitro effaith y gwaith a wneir ar ganlyniadau amgylcheddol.

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd parhaus y mesurau interim, gan gynnwys rôl yr IEPAW. Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oedd trefniadau monitro ffurfiol ar waith, er ei bod wedi bod yn ystyried opsiynau yn hynny o beth. Yn ogystal, dywedodd: “…mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y gellid defnyddio proses werthuso o'r fath i lywio dyluniad a datblygiad corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru”. Byddem yn ddiolchgar pe gallai’r Gweinidog ein diweddaru ar y mater hwn.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar yr eitemau a ganlyn:

- canfyddiadau'r adolygiad adnoddau, gan gynnwys pryd y bydd adnoddau ychwanegol ar gael;
- y camau a gymerwyd hyd yma i benodi Dirprwy IEPAW. Dylai hyn gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill yn y broses benodi.

**Argymhelliad 2.** Dylai’r IEPAW sefydlu proses ffurfiol i fonitro effaith argymhellion y corff ar benderfyniadau a chanlyniadau amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn galluogi’r IEPAW i asesu ei effaith.

**Argymhelliad 3.** Dylai’r Gweinidog gymryd y camau a ganlyn:

- darparu manylion yr opsiynau arfaethedig ar gyfer monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau interim;
- egluro pryd y bydd gwerthusiad o'r mesurau interim yn cael ei gynnal; ac

- egluro sut y bydd canfyddiadau'r gwerthusiad yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddylunio a datblygu corff llywodraethu amgylcheddol parhaol i Gymru.

# 3. Beth nesaf o ran llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru?

## Yr IEPAW y tu hwnt i fis Chwefror 2024?

**30.** Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nodwyd bod Dr Llewelyn Jones wedi dechrau yn ei swydd fel yr IEPAW ym mis Mawrth 2021, a hynny am gyfnod o ddwy flynedd. Ers hynny, mae hi wedi cael ei hailbenodi tan fis Chwefror 2024.

**31.** Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Nerys Llewelyn Jones a oedd Llywodraeth Cymru wedi trafod â hi y posibilrwydd o ymestyn ei phenodiad y tu hwnt i fis Chwefror 2024, o ystyried na fydd corff llywodraethu amgylcheddol parhaol yn cael ei sefydlu cyn hynny. Dywedodd Dr Llewelyn Jones:

> "So, dwi wedi bod yn cwestiynu'r Gweinidog am hyn, yn amlwg, i wybod. Mae'n bwysig, nid yn unig o ran y rôl, ond hefyd i wybod o ran capasiti, o ran yr adroddiadau a'r gwaith rŷn ni'n cymryd ymlaen. Dwi ddim eisiau ymrwymo i wneud gwaith dwi ddim yn teimlo y byddai'n gallu dod i ben gyda gwneud chwaith heb wybod beth sy'n digwydd nesaf. So, mae'n amlwg yn bwysig iawn."

**32.** Ychwanegodd: "Beth dwi wedi cael wrth y Gweinidog yw cadarnhad y bydd yna ddim gap rhwng beth dwi'n ei wneud nawr yn y rôl interim ag unrhyw gorff parhaol."

## Galw cynyddol am gorff llywodraethu amgylcheddol

**33.** Ers y Bumed Senedd, mae'r sector amgylcheddol yng Nghymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno Bil llywodraethu amgylcheddol at ddibenion sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd. Yn fwy diweddar, mae sefydliadau eraill wedi ategu'r galwadau hynny.

**34.** Ym mis Chwefror 2023, ysgrifennodd dros 300 o sefydliadau, o dan faner Climate Cymru, llythyr agored at y Prif Weinidog yn galw am Fil 'Natur Bositif' i'w ddwyn ymlaen ym mlwyddyn tri o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol, sef Bil sy'n:

- ymgorffori ymrwymiad i Gymru Natur Bositif yn y gyfraith, wedi'i hategu gan dargedau adfer byd natur sy'n rhwymo'n gyfreithiol; ac
- yn sicrhau cyfiawnder amgylcheddol i bobl Cymru drwy sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol.

**35.** Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *"Cymru yw'r unig wlad sydd heb gymryd camau ystyrlon i lenwi'r bwlch llywodraethu amgylcheddol (ar ôl gadael yr UE). Nid oes gennym ni yn unig gorff annibynnol a all oruchwylio a gorfodi'r gwaith o gyflawni targedau ac amddiffyniadau amgylcheddol. Mae camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn wedi'u gwthio'n ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn yng Nghymru."*

**36.** Ym mis Mehefin 2023, cyflwynwyd llythyrau a negeseuon i Lywodraeth Cymru gan fwy na 2,000 o bobl a 350 o sefydliadau, yn galw am weithredu brys mewn perthynas â byd natur, gan gynnwys targedau sy'n gyfreithiol rwymol ar gyfer adfer byd natur, a chorff annibynnol i warchod yr amgylchedd.

**37.** Er gwaethaf yr uchod, dywedodd datganiad y Prif Weinidog ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol (ym mis Mehefin 2023) na fyddai Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn tri. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Papur Gwyn ar gyfer Bil cyn diwedd 2023.

**38.** Yn sgil y datganiad uchod, ysgrifennodd y Pwyllgor at y Prif Weinidog er mwyn mynegi siom ynghylch y ffaith bod Llywodraeth Cymru, unwaith eto, wedi dewis peidio â blaenoriaethu Bil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol newydd. Wrth ymateb, rhoddodd y Prif Weinidog sicrwydd y byddai Bil yn cael ei gyflwyno yn ystod tymor y Senedd hon.

## Dysgu gwersi o fannau eraill yn y DU?

**39.** Mae holl wledydd eraill y DU eisoes wedi sefydlu cyrff llywodraethu amgylcheddol parhaol. Cafodd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, sy'n cwmpasu Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bennaf[1], ei sefydlu ym mis Tachwedd 2021. Daeth yn gwbl weithredol yn gynnar yn 2022. Cafodd Environmental Standards Scotland ei sefydlu ym mis Hydref 2021.

**40.** Cyn y sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland yn llawn, roedd y ddau sefydliad yn gweithredu fel cyrff interim/cysgodol:

- Yn Lloegr, sefydlodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ysgrifenyddiaeth llywodraethu amgylcheddol dros dro (sef yr

[1]Mae gan Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd awdurdodaeth yng Nghymru a'r Alban mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol nad yw wedi'i datganoli.

'IEGS') i glywed cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yr amheuir eu bod wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Roedd yr IEGS yn gallu cynnal asesiadau cychwynnol mewn perthynas ag unrhyw gwynion, ond nid oedd yn gallu gweithredu arnynt. Wedi hynny, sefydlwyd swyddfa interim ar ddiogelu'r amgylchedd.

- Yn yr Alban, sefydlwyd Environmental Standards Scotland ar sail interim yn gynnar yn 2021, pan gafodd bwrdd cysgodol/interim ei benodi.

**41.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn cynrychiolwyr o Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland ynghylch y gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu eu cyrff priodol.

**42.** Eglurodd y Fonesig Glenys fod yr IEGS wedi rhoi cyfle i brofi egin weithdrefn gwyno y Swyddfa. Dywedodd Natalie Prosser: "…it was very helpful having that function in place to allow complaints to be received and triaged before they were passed over to the OEP proper." Fodd bynnag, ychwanegodd: "…for those complainants who had to essentially wait for the OEP to be a on a statutory footing, we had to take a lot of care to support and manage them because there was a delay, and I'm sure that that was the cause of some frustration."

**43.** Dywedodd y Fonesig Glenys wrth y Pwyllgor fod y cam o sefydlu'r swyddfa interim wedi caniatáu i'r broses o benodi aelodau i fwrdd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd gael ei chwblhau yn fuan. Roedd hyn yn golygu bod modd i aelodau'r Bwrdd lywio a siapio datblygiad y sefydliad. Dywedodd:

> *"…being able to get key senior staff and board members in early…did enable us to hit the ground running…and it gave us thinking time. There's no point in having thinking time if you haven't got the right people doing the thinking. You don't want an interim secretariat doing that thinking for you, when you're thinking about how you prioritise matters or what your approach to enforcement might be, or what the priorities might be for you. You need the people who will be the bedrock of the organisation doing that thinking with you, and we were able to get those on board."*

**44.** Ychwanegodd Natalie Prosser: "The material benefit of the OEP being on an interim footing is…the ability to do the building of the organisation, which is a

substantial resource investment of recruiting, establishing all of your operational protocols, finding premises and so on."

**45.** Yn achos y corff interim/cysgodol ar gyfer Environmental Standards Scotland, dywedodd Mark Roberts wrth y Pwyllgor fod tîm pontio bach wedi'i sefydlu, a oedd wedi blaenoriaethu tri maes allweddol, sef creu a llywodraethu'r sefydliad; sefydlu prosesau ymchwilio; a phennu cynllun strategol drafft ar gyfer Environmental Standards Scotland. Dywedodd: "…there was a comparatively short period of time when the board was operating in that shadow capacity." Mae hyn oherwydd y cafodd y ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu Environmental Standards Scotland ei rhoi ar waith erbyn mis Ionawr 2021, a chafodd y corff interim/cysgodol ei greu yn fuan ar ôl hynny, a'r corff llawn erbyn mis Hydref 2021.

**46.** Gofynnodd y Pwyllgor i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland a oedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnal trafodaethau â hwy ynghylch y gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu eu cyrff priodol. Dywedodd Mark Roberts: "To date, the Welsh Government has not been in contact with Environmental Standards Scotland with regard to the development of future environmental governance arrangements for Wales". Dywedodd Natalie Prosser fod Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'r IEPAW, a'i bod wedi cael rhai trafodaethau â'r IEPAW a'r ysgrifenyddiaeth ynghylch sefydlu a gweithredu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd.

## Ein barn ni

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom fynegi pryder ynghylch annigonolrwydd y mesurau interim ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Dyfnhau wnaeth y pryderon hyn yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland, a roddodd darlun clir inni o'r hyn y mae Cymru'n colli allan arno. Yn sgil y ffaith bod rôl yr IEPAW wedi'i diffinio'n gul a'r ffaith bod ei adnoddau'n gyfyngedig, mae'n amlwg nad yw'n cymharu â'r cyrff llywodraethu amgylcheddol sydd ar waith mewn mannau eraill yn y DU.

Bydd penodiad yr IEPAW yn dod i ben ymhen ychydig fisoedd. Rydym yn siomedig iawn ein bod, unwaith eto, yn gorfod ceisio eglurder ynghylch a yw'r Gweinidog yn bwriadu ymestyn y penodiad hwn am flwyddyn arall.

Rydym wedi dweud yn flaenorol y byddai'n amhosibl meddwl na fydd corff llywodraethu amgylcheddol newydd i Gymru wedi'i sefydlu cyn diwedd penodiad presennol yr IEPAW (sydd eisoes wedi cael ei ymestyn). Gwnaethom

nodi’r ffaith ein bod yn disgwyl y bydd Bil i sefydlu’r corff newydd yn cael ei ddwyn ymlaen ym mlwyddyn tri o’r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Flwyddyn yn ddiweddarach, nid oes unrhyw beth wedi newid. Bydd cyfnod penodiad yr IEPAW yn dod i ben ym mis Chwefror 2024, ac nid oes unrhyw arwydd bod Bil yn yr arfaeth o hyd. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis anwybyddu ein galwadau ni, ynghyd â galwadau sefydliadau a dinasyddion di-ri yng Nghymru, i ddeddfu er mwyn mynd i’r afael â’r bwlch llywodraethu amgylcheddol.

Mae saith mlynedd bellach wedi mynd heibio ers refferendwm yr UE, pan fynegodd y sector amgylcheddol bryderon am y tro cyntaf ynghylch y bwlch amgylcheddol, ac mae pum mlynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddeddfu er mwyn mynd i’r afael â’r bwlch hwnnw. Mae’r ffaith na fydd Bil yn cael ei gyflwyno ym mlwyddyn tri o’r Rhaglen Ddeddfwriaethol yn golygu bod y corff newydd o leiaf ddwy flynedd i ffwrdd, yn ôl pob tebyg. Os nad yw’r corff newydd yn gwbl weithredol cyn diwedd cyfnod Llywodraeth Cymru mewn grym, bydd hynny’n fethiant anfaddeuol ar ei rhan.

Er bod yr amser sydd ar gael i Lywodraeth Cymru gyflawni’r uchod yn prysur brinhau, mae’r addewid ynghylch cael Papur Gwyn ar gyfer Bil cyn diwedd 2023 yn rhoi rhywfaint o sicrwydd bod gwaith yn mynd rhagddo o’r diwedd. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymrwymo i’r cam o gyhoeddi ei hymateb i'r Papur Gwyn o fewn chwe mis i ddiwedd yr ymgynghoriad, a chyflwyno Bil ym mlwyddyn pedwar o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol.

Mae’r profiadau a gafwyd yn Lloegr a’r Alban yn dangos y gallai corff newydd fod yn gwbl weithredol o fewn misoedd, unwaith y bydd y ddeddfwriaeth yn ei lle. Bydd sefydlu corff interim/cysgodol yn fuan, fel y gwnaethpwyd yn achos Swyddfa Diogelu’r Amgylchedd, yn hwyluso llawer o'r gwaith sylfaenol cyn sefydlu’r corff statudol, gan ganiatáu cyfnod pontio llyfn.

Roeddem yn siomedig o glywed nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau â Swyddfa Diogelu’r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu eu cyrff priodol. Byddai hyn yn helpu o ran nodi’r arferion gorau a’r heriau posibl sydd ynghlwm wrth lywio’r broses o ddatblygu corff newydd i Gymru. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud hyn fel mater o flaenoriaeth. Rydym yn disgwyl i’r canlyniadau gael eu hadlewyrchu yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil, sydd yn yr arfaeth.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog egluro a yw'n bwriadu ceisio ailbenodi'r IEPAW pan ddaw ei phenodiad presennol i ben ym mis Chwefror 2024. Os nad yw'r Gweinidog yn bwriadu gwneud hynny, dylai esbonio sut y bydd yn sicrhau na fydd bwlch rhwng rôl yr IEPAW ac unrhyw drefniadau llywodraethu amgylcheddol parhaol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r camau a ganlyn:

- cyhoeddi ei hymateb i'r Papur Gwyn sydd ar ddod ar Fil i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol, a chyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol o fewn chwe mis i ddiwedd yr ymgynghoriad;
- cyflwyno'r Bil ym mlwyddyn pedwar o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol; a
- sicrhau bod y corff llywodraethu amgylcheddol newydd yn gwbl weithredol cyn diwedd y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol interim/cysgodol cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog gynnal trafodaethau â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ac Environmental Standards Scotland er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd yn sgil sefydlu eu cyrff priodol. Dylai'r canlyniadau gael eu hadlewyrchu yn y Papur Gwyn ar gyfer y Bil, sydd yn yr arfaeth.